



Ar Fawrth 1af eleni, fe gyhoeddwyd adroddiad “Breuddwydion Cudd” gan Gomisiynydd Plant Cymru.

Mae’r adroddiad yn edrych ar brofiadau pobl ifanc sy’n gadael gofal yng Nghymru ac yn argymhell sut y gallai awdurdodau lleol fynd ati i wella a datblygu eu gwasanaethau ar eich cyfer.

Ar ôl derbyn yr adroddiad rydym wedi ystyried y cynnwys ac o ganlyniad bydd y gwasanaeth Ol16 yn rhoi sylw i’r canlynol fel rhan o ymateb i argymhellion y Comisiynydd.

### **Tai Diogel a Sefydlog**

- Rydym eisoes yn gweithredu cynllun “Pan Fydda I’n barod” i’r bobl ifanc hynny sydd mewn lleoliadau maethu. Mae’r cynllun yn galluogi pobl ifanc i aros ymlaen gyda’u gofawyr ar ôl troi 18 oed. Byddwn yn parhau i ddatblygu’r cynllun hwn. Os ydych yn berson ifanc dros 16 oed mewn lleoliad maeth gallwch drafod y cynllun gyda’ch gweithiwr cymdeithasol neu gynghorydd personol.
- Mae tai addas ar gyfer anghenion pobl ifanc yn adnodd prin. Byddwn yn gweithio gyda’r adran Tai i drafod ffyrdd o ddatblygu cyflwyno ceisiadau i fod ar y rhestr aros, ac i gael y flaenoriaeth sy’n briodol i chi fel pobl ifanc sy’n gadael gofal.
- Byddwn hefyd yn gweithio gyda darparwyr tai a chefnogaeth i wella’r dewisiadau sydd ar gael yn lleol. Fel rhan o hyn rydym eisoes wedi datblygu dau brosiect sy’n cynnig tai’n benodol ar gyfer pobl ifanc sy’n gadael gofal. Mae’r prosiectau hyn hefyd yn cynnig cefnogaeth symudol, sy’n galluogi’r gefnogaeth i symud a bod yn hyblyg i gyd-fynd efo anghenion chi fel unigolion.

### **Cyfleoedd ar gyfer addysg, gwaith a hyfforddiant**

- Rydym yn barod yn rhoi pwyslais ar gefnogi pobl ifanc yn eu dewisiadau addysg a gwaith. Yn ystod y flwyddyn yma byddwn yn gweithio’n agos gyda phrosiect newydd Ad Trac i wella’r cyfleoedd hyn ac i ddatblygu cyfleoedd profiad gwaith a hyfforddiant yn lleol. Ein bwriad yw gweithio gyda Ad Trac i ddatblygu cynlluniau sydd o ddiddordeb i chi fel pobl ifanc. Bydd eich cynghorydd personol yn medru trafod hyn ymhellach gyda chi.

### **Cefnogaeth ymarferol ac emosiynol**

- Mae adroddiad y Comisiynydd yn argymhell ymestyn cefnogaeth i bob un sy’n gadael gofal hyd at 25 oed. Fel gwasanaeth rydym eisoes wedi gweithredu ar hyn ac mae pob person ifanc sy’n cyrraedd 21 oed bellach yn cael y cynnig o ymestyn y gefnogaeth i 25 oed. Wrth gwrs, dewis personol fydd hyn ac nid pawb sy’n teimlo eu bod angen hynny. Beth bynnag, mae’n bwysig fod pawb yn gwybod ei fod ar gael a bydd eich cynghorydd personol yn gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod am y cyfle hwn.
- Rydym hefyd yn edrych ar y ffordd yr ydym yn defnyddio technoleg i rannu gwybodaeth gyda chi. Mae defnydd eisoes yn cael ei wneud o Whats App a Messenger a bydd hyn yn cario mlaen. Rydym hefyd yn awyddus i wella’n defnydd o Facebook i rannu gwybodaeth gyffredinol.
- Mae cefnogaeth ariannol i bobl ifanc yn rhan bwysig o’n gwaith. Rydym ar hyn o bryd wedi cychwyn edrych ar ba gefnogaeth ariannol rydym yn ei roi a byddwn yn medru rhannu unrhyw newid gyda chi ar ôl gorffen y gwaith yma.
- Yn olaf, mae’r Cyngor newydd gytuno ar strategaeth rhiantu corfforaethol, sy’n gosod allan ein cyfrifoldebau tuag atoch chi fel pobl ifanc mewn gofal neu sy’n gadael gofal y Cyngor. Rydym yn cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifrif ac yn ymrwymo i sicrhau eich bod yn cael y cyfleoedd gorau mewn bywyd. Fel rhan o’r gwaith hwn rydym yn awyddus i wrando ar lais plant a phobl ifanc a’n bwriad yw sefydlu grŵp fydd yn dod at ei gilydd yn achlysurol i drafod be sy’n bwysig i chi. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o hyn, gadewch i’ch cynghorydd personol wybod hynny.

Yn gywir

**Marian Parry Hughes**

**Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd**



On March 1st this year, the "Hidden Ambitions" report was published by the Children's Commissioner for Wales.

The report looks at the experiences of young people leaving care in Wales and makes recommendations as to how local authorities could improve and develop services for you.

After receiving the report the local authority has considered its content and the 16+ service will address the following in response to the Commissioner's recommendations..

### **Secure and Stable Housing**

- We are already implementing a "When I Am Ready" scheme for those young people in foster placements. The scheme enables young people to stay on with their carers after turning 18. We will continue to develop this plan. Any young person over 16 in a foster placement can discuss the scheme with their social worker or personal adviser.
- Suitable housing for young people is in short supply. We will work with the Housing department to discuss ways of presenting applications to be on the housing waiting list, and to be awarded the priority that is appropriate for you as young people leaving care.
- We will also work with housing and support providers to improve the options available locally. As part of this we have already developed two projects that offer housing specifically for young people leaving care. These projects also offer floating support, which allows the support to move and be flexible to fit with your individual needs.
- **Opportunities for education, work and training**

We already place emphasis on supporting young people in their education and work choices. During this year we will work closely with the new Ad Trac project to improve these opportunities and to develop work experience and training opportunities locally. Our intention is to work with Ad Trac to develop plans that are of interest to you as young people. Your personal adviser will be able to discuss this further with you.

### **Practical and emotional support**

- The Commissioner's report recommends extending support for all care leavers up to the age of 25. As a service we have already implemented this and every young person reaching the age of 21 now has the offer of extending support until 25 years of age. Of course, this will be a personal choice and not everyone will feel they need it. Regardless of this, it's important that everyone knows it's available and your personal adviser will make sure you know about this opportunity.
- We are also looking at the way in which we use technology and social media to share information with young people. We already use Whats App and Messenger and this will continue. We are also keen to improve our use of Facebook to share general information.
- The provision of financial support for young people is an important part of our work. We are currently looking at what financial support we give and we will be able to share any changes with you after completing this work.
- Finally, the Council has agreed a new corporate parenting strategy, which sets out our responsibilities towards you as young people in care or leaving care. We take this responsibility seriously and commit to making sure you have the best life chances. As part of this work we are keen to listen to the voice of children and young people and our intention is to set up a group that will come together occasionally to discuss what is important to you.

If you are interested in being involved, please let your personal adviser know

Yours sincerely

**Marian Parry Hughes**

**Head of Children and Family Support Department**